**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberdaron gynhaliwyd nos Lun, Tachwedd 14eg 2022 yn Neuadd Y Rhiw**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Dewi Evans, Mari Evans, Wil Evans, Jaci Jones, Gwenllian Hughes Jones, Dafydd Myrddin, Nesta Roberts ac RJ Williams. Roedd y Cyng Gareth Williams (Cynghorydd Sir) hefyd yn bresennol.
Yn y gadair: Y Cyng Wenda Williams
**Roedd Sion Bryn Roberts, swyddog y Gwasanaeth ieunctid yn bresennol ar ddechrau y cyfarfod:** Eglurodd fod y clybiau ieuenctid trwy y Sir wedi gorffen yn 2018 ond mae cynllun treialu i'w ail sefydlu wedi dechrau eleni. Mae clwb ieuenctid yn cael ei dreialu yng Nghanolfan Deunant ar hyn o bryd trwy gyllid gan y Gwasanaeth Ieuenctid, mae'r cynllun yn parhau am 12 wythnos (tan y Nadolig). Fe wnaeth 28 o bobl ifanc fynychu y clwb gynhaliwyd ar y 26ain o Hydref sydd yn brawf fod y clwb wedi denu llawer o ddiddordeb yn yr wythnosau diwethaf.
Er mwyn parhau i gynnal y clwb ar ôl y Nadolig fe fydd rhaid denu cyllid o ffynhonellau eraill er mwyn cyd-ariannu. Mae y Gwasnaeth Ieuenctid yn fodlon ariannu un rhan o dair o'r gôst ac mae  Canolfan Deunant wedi cytuno i gyllido un rhan o dair o'r gôst, ac mae cais yn cael ei wneud i'r Cyngor Cymuned ariannu yr un rhan o dair sydd yn weddill.
Eglurodd y byddai cynnal 30 o sesiynnau yn costio cyfanswm £5,254.20 (yn cynnwys ffi hyfforddiant arweinwyr) ond fe fyddai yn bosibl cwtogi y nifer o sesiynnau er mwyn lleihau y costau. Ychwnaegodd na fyddai costau hyfforddiant am gyfnod byr os yn ail gychwyn yn mis Ionawr gan fod yr arweinwyr wedi eu hyfforddi yn barod.
Penderfynwyd mewn egwyddor i ariannu un rhan o dair costau 15 o sesiynnau yn cychwyn o fis Ionawr ar yr amod fod Canolfan Deunant yn cyd-ariannu un rhan o dair o'r sesiynnau yn ogystal.
**1)<u>Ymddiheuriadau a datgan diddordeb</u> :** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Emlyn Jones a Dafydd Williams. Datganodd y Cyng Wenda Williams ddiddordeb yn yr eitem gyntaf ar y rhaglen sef clwb ieuenctid yng Nghanolfan Deunant. Datganodd y Cyng RJ Williams ddiddordeb yng nghais cynllunio Bryniau, Uwchmynydd.
**<u>2)Cyhoeddiadau y cadeirydd</u>**: Nid oedd gan y Cadeirydd gyhoeddiadau.
**3)<u>Llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 10fed o Hydref 2022</u>**: Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.
**<u>4</u>) <u>Materion yn codi o'r cofnodion</u>**
**i)Ymatebion Cyngor Gwynedd i faterion ffyrdd a llwybrau:**
i)Cadarnhawyd fod perchennog y wal sydd wedi syrthio ar lôn Deuglawdd wedi ei hysbysu o'r angen i'w thrwsio a fod côn wedi ei osod er diogelwch modurwyr.
ii)Mae'r tyllau yn y ffyrdd yn ardal Y Rhiw wedi eu trwsio.
**ii)Materion yr Eglwys Newydd ac adroddiad iechyd a diogelwch y fynwent:** Mae cyfarfod cychwynol wedi ei drefnu gyda Caryl Lewis ar yr 24ain o Dachwedd trwy zoom ac mae y pensaer Matt Osmont wedi cytuno i fynychu hefyd.
Trafodwyd yr achos am arian yswyriant sydd wedi ei ddechrau er mwyn talu am drwsio to yr eglwys a phenderfynwyd  fod angen hysbysu y cwmni fod mwy o gostau na'r hyn a dybiwyd yn wreiddiol ac y bydd rhaid cael arolwg gan bensaer er mwyn creu rhaglen waith i adeiladwyr ei brisio. Hefyd mae angen trafod y posibiliadau o ddiogelu y to dros dro gyda'r pensaer.
Bydd adroddiad iechyd a diogelwch y fynwent yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf.
**iii)Hyfforddiant Cynghorwyr:** Cylchredwyd rhaglen hyfforddiant Unllais Cymru i'r aelodau ac fel cam cyntaf yng nghynllun hyfforddi y Cyngor teimlir y dylai cwrs côd ymddygiad gael ei gynnig. Nid yw yr aelodau yn fodlon gwneud y cwrs trwy zoom ac mae Cyngor Cymuned Tudweiliog dangos diddordeb mewn mynychu cwrs hefyd**.** Penderfynwyd gofyn i Unllais Cymru drefnu cwrs yn lleol ar gyfer y ddau gyngor.
iv)Adroddiad o gyfarfod gyda Iwan ap Trefor o Gyngor Gwynedd: Adroddwyd fod cyfarfod safle wedi ei gynnal gyda Iwan ap Trefor i drafod y posibilrwydd o greu llwybr troed o stad Bro Hywyn i gyfeiriad Ysgol Crud y Werin ond datganodd y swyddog y byddai y llwybr yn

costio oddeutu £800,000 i’w greu ond nad yw yn uchel ar restr blaenoriaeth y Cyngor.
Mae’r Cyngor yn bwriadu cysylltu gyda y tirfeiddianwyr i drafod a cytunwyd y byddai y clerc yn anfon manylion cyswllt y tirfeiddianwyr i Iwan ap Trefor.
Trafodwyd mesurau arafu cyflymder ar y B4413 yn ystod y cyfarfod ac mae bwriad i roi marciau coch ar y ffordd ynghyd a chyfyngiadau cyflymder newydd i geisio arafu cerbydau.
Trafodwyd marciau ffordd yn ogystal gan nad ydi yr holl linellau gwyn wedi eu hail baentio yn yr ardal. Eglurodd y Cynghorydd Sir fod cyfarfod safle wedi ei drefnu rhyngtho a swyddog o’r Cyngor i drafod rhoi marciau ar y ffordd ger Eglwys Bodferin ac os bydd amser byddant yn mynd ymlaen i drafod y marciau ger Geufron a Tai’r Efail yn ogystal.
v)Archwiliad y cae chwarae: Mae archwiliad wedi ei drefnu gyda chwmni Wicksteed Leisure.
vi)Meddygfa Rhydbach: Trafodwyd y pryderon sydd yn bodoli ynghylch y drefn trefnu apwyntiadau yn y feddygfa.
Eglurodd y Cynghorydd Sir fod meddyg newydd wedi dechrau gweithio yno dri diwrnod yr wythnos a’i fod yn cyfarfod gyda rheolwr y feddygfa ddiwedd y mis. Fe wnaiff drafod pryderon y Cyngor yn y cyfarfod yn enwedig y pryderon ynghylch y system ffôn.
vii)Arwydd Aberdaron: Derbyniwyd ymateb gan Bleddyn Jones, y swyddog AHNE yn egluro nad ydi o yn gwybod ble mae yr arwydd wedi mynd, nid oes arian ar gael i brynu arwydd newydd ar hyn o bryd. Penderfynwyd cysylltu gan ofyn os oes rhaid i’r arwydd fod yn un hen ffasiwn, byddai arwydd arferol yn rhatach ac fe fyddai y Cyngor Cymuned yn ystyried cyfranu tuag ato.

**5) <u>Gohebiaethau</u>**

i)Ymgynghoriad Ambiwlans Awyr - er gwybodaeth.
ii)Bwletin Unllais Cymru - er gwybodaeth
iii)Ymgynghoriad Comisiwn ffiniau etholiadol - er gwybodaeth
iv)Cyngor Gwynedd - biniau halen: Bwriedir ail leoli biniau halen mewn 7 lleoliad yn yr ardal a’u llenwi.
v)Cwblhau archwiliad ariannol i gyfrifon y Cyngor: Derbyniwyd adroddiad yr archwiliwr allanol ac mae’r adroddiad yn un di-amod ac nid oes unrhyw faterion wedi eu codi. Mae y rhybudd o ddiwedd archwiliad wedi ei osod ar y wefan ac fe fydd yn cael ei osod yn yr hysbysfyrddau yn ogystal.
vi)Cwyn ynghylch arwyddion pan mae’r ffordd ym Mhenrhos ar gau: Derbyniwyd cwyn na osodwyd arwyddion yn yr ardal pan fu’r ffordd ar gau yn ddiweddar er mwyn hysbysu modurwyr i droi ym Mhenygroeslon neu Nanhoron. Penderfynwyd anfon y gwyn at Gyngor Gwynedd.

**6) <u>Cynllunio</u>**

C22/0999/30/LL: Storfa amaethyddol - Pant Valley, Rhydlios: Mae y cyngor yn cefnogi yr egwyddor o adeiladu sied ar y safle ond mae pryder am ei maint ynghyd a’i defnyddiau.
C22/1002/30/LL: Sied am bwrpas/coedwigaeth - Tyddyn Meirion, Rhiw: Cefnogi
C22/1001/30/LL: Cais llawn i ddymchwel tŷ - Bryniau, Uwchmynydd, Uwchmynydd: Cefnogi

**7)Ariannol**

**i)Adroddiad ariannol:** Cyflwynwyd adroddiad ar sefyllfa ariannol y Cyngor a nodwyd fod dros £40,000 yn y cyfri banc ar hyn o bryd. Mae dros £11,000 eisioes wedi ei wario eleni ond rhagwelir fod y gwariant erbyn diwedd y flwyddyn ariannol yn mynd i fod o fewn y gyllideb. Cytunwyd y dylid monitro y gwariant yn ofalus am y misoedd sydd i ddod, er fod arian wrth gefn petai unrhyw wariant ychwanegol yn angenrheidiol.

**Taliadau**

Awdurdodwyd y clerc i dalu y canlynol:
Iwan Hughes: £195.33(cyflog)
HMRC (Paye): £49
Nesta Roberts: £12.56 (CCTV trwy S/O)
HSBC: £5 ( ffioedd)
Gerddi Gwell: £2,100 (torri gwellt y fynwent)
ICO: £40
Arfon Parry: £40
Neuadd Y Rhiw: £20

**Derbyniadau**
Dim wedi eu derbyn

**8) <u>Materion ffyrdd a llwybrau</u>**

i)Mae lori wedi mynd yn sownd yn y ffos ar lôn Bodffordd, Rhoshirwaun ac mae dwr yn llifo i'r ffordd.
ii)Mae eithin yn tyfu i'r ffordd ar y ffordd rhwng y Fantol ac Eglwys Bodferin.
iii)Trafodwyd hawliau safleoedd carafannau a holwyd ynghylch y drefn blisomona gan Gyngor Gwynedd gan ei bod yn ymddangos fod carafannau yn cael eu gadael ar y meysydd a dim yn cael eu symud dros y gaeaf ar rai safleoedd. Penderfynwyd anfon at yr Adran Gynllunio i holi.
iv)Mae llawer o fagiau baw ci wedi eu gadael ar y llwybr o ben allt Pensarn i ben gorllewinol traeth Aberdaron, penderfynwyd atgoffa Cyngor Gwynedd am y cais wnaed rai misoedd yn ôl am fin, ynghyd a'r cais am fin sbwriel yn y gilfan ar ben yr allt..
v)Trafodwyd y ffaith nad ydi y gwasanaeth bws hwyr o Bwllheli i Aberdaron wedi ei adfer yn dilyn cyfnod y cofid. Penderfynwyd gofyn eto i Gyngor Gwynedd ei adfer.
vi)Penderfynwyd gofyn am i'r swyddfa bost deithiol ymweld ag Aberdaron yn rheolaidd.

**Bydd y cyfarfod nesaf o'r Cyngor yn cael ei gynnal nos Lun, 12fed o Dachwedd am 7yh yng Nghanolfan Deunant.**